# LLYFR MORMON, EI DARDDIAD.

## GWEINIDOGAETH ANGYLAIDD BRESENNOL YN RHESYMOL AC YSGRYTHYROL.

RHODDASOM hanes byr yn y traethawd cyntaf o'r gyfres a addawasom gyhoeddi am Lyfr Mormon, am ymweliad angel o'r nef â Joseph Smith, ei genadwri iddo, darganfyddiad o'r llafnau a gynnwysent gynnwysiad y Llyfr, ynghyd a'r modd y gall pob un gael gwybodaeth gan Dduw mai gwir yw y cyfan; cymhella pwysigrwydd o grediniaeth yn y ffaith ynghyd a'n gwybodaeth am y rhwystrau a ddyry rhagfarn ar ffordd dynion i gredu mewn gweinidogaeth angylaidd yn yr oes draddodiadol hon, i fanylu yn y traethawd hwn ar y *rhesymoldeb* a'r *ysgrythyroldeb* o ymddangosiad angylion i ddynion ar y ddaear yn yr oes hon fel y canlyn:—

Yn y lle cyntaf, gofynwn ai rhesymol yw i Feibl-gredwyr gyfaddef dyfodiad angylion yn y cyn oesoedd at y patriarchiaid a'r prophwydi, iddynt fwyta ac yfed gydag Abraham, ymddyddan â Lot, gwraig Manoah, Moses, Daniel, Ioan, a llu a enwir yn yr ysgrythyrau, ac i'r un bobl haeru fod ymddangosiad angylion yn awr yn beth afresymol, heb gynnyg nag ysgrythyr na rheswm dros hyny amgen na eu rhagfarn ddisail eu hunain? Mae yr ysgrythyrau yn frith o hanesion am ymweliad angylion yn y cyn oesoedd, a'r cwestiwn a ddymunem gael ateb iddo gan y rhai a broffesant hyny yw, paham nad yw mor resymol i gredu tystiolaeth eirwir am ddyfodiad angylion yn awr a'r pryd hyny? Ac os caiff y darllenydd ysgrythyr neu resymeg i ateb yn naccâol, caiff afael ar yr hyn y methodd yr awdwr ei gael ar ol ymchwiliad trwyadl i'r naill a'r llall, a'r hyn ni allodd un dyn a welodd efe hyd yn hyn ei roddi iddo. Ar eirwiredd hyn, ynte, esgusodir ef am gredu, a beuid ef am beidio credu tystiolaeth ddiwrthbrawf am beth o gymmaint

pwys â chenadwri angel; gorfoda hyn ef i gredu, neu bydd yn hunan.gondemniedig.

Paham nad yw mor resymol credu gwirionedd tystiolaeth cyd-oeswyr am hyn ag yw credu cyffelyb dystiolaeth cyn-oeswyr am yr un peth? Pa fodd y dichon proffes cyd-oeswyr brofi dynion yn rhai drwg ag a gyfaddefir yn brawf o ddaioni cyn-oeswyr? A ydyw amser yn cyfnewid rheswm yn afreswm, a gwir yn gau? Paham nad yw mor afresymol erlid a lladd cyd-oeswyr o herwydd y tystiant am ddyfodiad angylion yn awr ag oedd i'r Sodomiaid, ysgrifenyddion, a gau-grefyddwyr y cyn-oesoedd wneyd yr un modd â'u cyd-oeswyr hwy am dystio yr un peth? Eithr, meddir, mae afresymoldeb y gosodiad yn ymddibynu ar ei wirioneddolrwydd, yr hyn sydd ammheus. Tra cyfaddefir y blaenaf ni chaniateir fod *anghrediniaeth* neb ynddo yn un gwrthbrawf o'i wirioneddolrwydd, ymresymu ei afresymoldeb tybiedig ymaith yw ein hamcan, er creu crediniaeth ynddo yn hawddach.

Dywedir fod tystiolaeth y cyn-oeswyr hyny yn ffaith ysgrythyrol, ac o herwydd hyny yn hawddach ei chredu nag yw tystiolaeth cyd-oesol. I hyn atebwn, mai hollol groes y dylid ystyried tystiolaeth byw a marw, o herwydd mae fod y naill yn fyw fel y gellir eu holi a'u croes holi yn rhoddi manteision i gredu eu tystiolaeth na cheir gan y llall. Mae yn ffaith hanesyddol yr anghredid tystiolaeth gyd-oesol am hyn yn mhob oes gan y rhai a broffesent gredu tystiolaeth eu cyn-oeswyr am yr un peth. Mae yn ffaith gyd-oesol mae y rhai a broffesant fod yn fwyaf selog i gredu ymddangosiad angylion i'r henafiaid yw y rhai mwyaf gwrthwynebus i broffes eu cyd-oeswyr o'r un peth. Mewn prawf o hyn gofynwn, pwy a gondemniant eu cyd-oeswyr am gredu dyfodiad angel, yn waeth na y rhai a gredent yn, ac a weddient am ymweliad angylion er's ychydig amser yn ol? Nid oes nemawr flynyddau er pan ddywedai cannoedd eu bod yn clywed angylion yn canu haleliwia yn yr awyr, uwchben eu cyrddau, o Beddgelert hyd derfynau y dywysogaeth; ac nid ammheuwn na chredid yr un ystori etto, pe dywedid hi ar *Green* y Bala; eithr gwylied neb *arall* rhag proffesu hyny. Clywwyd pregethwyr yn haeru o'r pwpudau uwchben cannoedd, fod angylion yn dyfod a bendithion o'r nef yn awr, ac yn cyfeillachu ag ambell hen wreigan yn ei bwthyn

pwys â chenadwri angel; gorfoda hyn ef'i gredu, neu bydd yn hunan.gondemniedig.

Paham nad yw mor resymol credu gwirionedd tystiolaeth cyd-oeswyr am hyn ag yw credu cyffelyb dystiolaeth cyn-oeswyr am yr un peth? Pa fodd y dichon proffes cyd-oeswyr brofi dynion yn rhai drwg ag a gyfaddefir yn brawf o ddaioni cyn-oeswyr? A ydyw amser yn cyfnewid rheswm yn afreswm, a gwir yn gau? Paham nad yw mor afresymol erlid a lladd cyd-oeswyr o herwydd y tystiant am ddyfodiad angylion yn awr ag oedd i'r Sodomiaid, ysgrifenyddion, a gau-grefyddwyr y cyn-oesoedd wneyd yr un modd â'u cyd-oeswyr hwy am dystio yr un peth? Eithr, meddir, mae afresymoldeb y gosodiad yn ymddibynu ar ei wirioneddolrwydd, yr hyn sydd ammheus. Tra cyfaddefir y blaenaf ni chaniateir fod *anghrediniaeth* neb ynddo yn un gwrthbrawf o'i wirioneddolrwydd. ymresymu ei afresymoldeb tybiedig ymaith yw ein hamcan, er creu crediniaeth ynddo yn hawddach.

Dywedir fod tystiolaeth y cyn-oeswyr hyny yn ffaith ysgrythyrol, ac o herwydd hyny yn hawddach ei chredu nag yw tystiolaeth cyd-oesol. I hyn atebwn, mai hollol groes y dylid ystyried tystiolaeth byw a marw, o herwydd mae fod y naill yn fyw fel y gellir eu holi a'u croes holi yn rhoddi manteision i gredu eu tystiolaeth na cheir gan y llall. Mae yn ffaith hanesyddol yr anghredid tystiolaeth gyd-oesol am hyn yn mhob oes gan y rhai a broffesent gredu tystiolaeth eu cyn-oeswyr am yr un peth. Mae yn ffaith gyd-oesol mae y rhai a broffesant fod yn fwyaf selog i gredu ymddangosiad angylion i'r henafiaid yw y rhai mwyaf gwrthwynebus i broffes eu cyd-oeswyr o'r un peth. Mewn prawf o hyn gofynwn, pwy a gondemniant eu cyd-oeswyr am gredu dyfodiad angel yn waeth na y rhai a gredent yn, ac a weddient am ymweliad angylion er's ychydig amser yn ol? Nid oes nemawr flynyddau er pan ddywedai eannoedd eu bod yn clywed angylion yn canu haleliwia yn yr awyr, uwchben eu cyrddau. o Beddgelert hyd derfynau y dywysogaeth; ac nid ammheuwn na chredid yr un ystori etto. pe dywedid hi ar *Green* y Bala; eithr gwylied neb *arall* rhag proffesu hyny. Clywwyd pregethwyr yn haeru o'r pwpudau uwchben cannoedd, fod angylion yn dyfod a bendithion o'r nef yn awr, ac yn cyfeillachu ag ambell hen wreigan yn ei bwthyn

